Medi 2025

**At: Holl gleifion cofrestredig Practis Meddygol Aber-bîg, Y Sgwâr, Aber-bîg, Abertyleri, NP13 2AB, sy'n byw yn y cyfeiriad hwn.**

Annwyl Glaf,

Ysgrifennais atoch yn flaenorol ym mis Ebrill 2025, yn cynghori y byddai Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn dechrau proses caffael mewn perthynas â Phractis Meddygol Aber-bîg. Mae'n bleser gennyf gadarnhau, yn dilyn proses caffael llwyddiannus, y bydd Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol (GMS) yn cael eu darparu o Bractis Meddygol Aber-bîg gan Dr Isolde Shore-Nye a Phartneriaid Meddygfa Cwm Calon, o 1 Ionawr 2026 ymlaen.

Mae'r bartneriaeth leol wedi'i hen sefydlu gyda 3 Partner Meddyg Teulu gyda chymorth Meddygon Teulu cyflogedig a hyfforddedig ynghyd â Nyrsys Practis. Mae Meddygfa Cwm Calon wedi'i lleoli yn Abertyleri ac o 1 Ionawr 2026 bydd hefyd yn darparu GMS y GIG o Bractis Meddygol Aber-bîg. Felly, ni fydd unrhyw newid i ble a sut rydych chi'n cyrchu gwasanaethau GMS. Fe'ch sicrheir nad oes angen i chi wneud unrhyw beth gan y byddwch yn parhau wedi'ch cofrestru gyda Phractis Meddygol Aber-bîg o dan Dr Isolde Shore-Nye a Phartneriaid.

Dros y misoedd nesaf, bydd y Bwrdd Iechyd yn parhau i weithio ochr yn ochr â'r staff presennol ym Mhractis Meddygol Aber-bîg a Meddygfa Cwm Calon i sicrhau pontio llyfn.

Os oes gennych unrhyw bryderon, mae croeso i chi gysylltu ag aelod o Dîm Contractio Gofal Sylfaenol y Bwrdd Iechyd ar 01495 241254, fodd bynnag, edrychwch ar y ddogfen Cwestiynau Cyffredin atodedig a allai ateb rhai cwestiynau a allai fod gennych.

Yn gywir,

**Lloyd Hambridge**

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan**
Is-adran Gofal Sylfaenol a Gwasanaethau Cymunedol
Ty Llanarth
Uned 1, Porth Trecelyn
Stryd y Bont
TRECELYN
NP115GH

Ffon: 01495 241200

**Aneurin Bevan University Health Board**
Primary Care and Community Services Division
Llanarth House
Unit 1, Newbridge Gateway
Bridge Street
NEWBRIDGE
NP115GH

Tel: 01495 241200

**Cyfarwyddwr Rhanbarthol Gofal Sylfaenol, Gwasanaethau Cymunedol a Gofal Cymhleth a Hirdymor**

*Amg. Cwestiynau Cyffredin*